



Adroddiad Arolygu ar gyfer

Consensus community support Limited

**Fflatiau Lôn Pisgwydd
Lôn Pisgwydd
Caerfyrddin
SA31 1SN**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

10/01/2023

Adroddiad terfynol heb ei
gyhoeddi

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Consensus community support Limited

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cymorth Cartref
Darparwr Cofrestredig	Consensus Community Support Limited
Lleoedd cofrestredig	0
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	18 Ebrill 2021
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?	Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.

Crynodeb

Mae'r gwasanaeth yn cefnogi'r bobl i fyw mor annibynnol â phosibl. Mae'r rhyngweithio rhwng y bobl a'r gweithwyr cymorth yn gyfeillgar ac yn llawn anogaeth.

Mae gweithwyr cymorth brwdfrydig a phrofiadol yn cael eu llywio gan gynlluniau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n cael eu creu gan yr unigolyn, gyda chymorth gan ei staff, ei deulu a'i weithwyr ieuchyd proffesiynol. Dywedodd gweithiwr cymorth wrthym *"it's so vibrant here and a great place to work, I love it as much today as I did on my first day"*.

Mae'r darparwr yn goruchwyllo'r gwasanaeth yn dda. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn hygyrch ac yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd. Mae'r rheolwr yn arwain y gwasanaeth â diwylliant agored a chefnogol a gaiff ei werthfawrogi gan y bobl a'u gweithwyr cymorth.

Llesiant

Caiff y bobl gymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a chânt eu cynnwys yn llawn mewn penderfyniadau sy'n ymwneud â'r gwasanaeth y maent yn ei gael. Caiff gwybodaeth fanwl

am yr unigolyn, sut i'w gefnogi yn y ffordd orau a'r canlyniadau bwriadedig eu cofnodi mewn cynlluniau personol. Mae'r uwch-aelodau o staff yn gweithio gyda gweithwyr iechedd a gofal cymdeithasol proffesiynol er mwyn helpu'r bobl i gadw mor iach â phosibl. Mae'r bobl yn cyfrannu at y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt yn yr adolygiadau a gynhelir bob mis gan y gweithwyr allweddol sy'n eu helpu i sicrhau eu bod ar y trywydd cywir o ran cyflawni eu nodau. Mae'r uwch-aelodau o staff yn cadw cynlluniau personol manwl a chywir, gan gynnwys nodiadau dyddiol sy'n cofnodi canlyniadau'r bobl.

Mae'r gwasanaeth yn cefnogi'r bobl i fyw mor annibynnol â phosibl; dywedodd gweithiwr wrthym *"I see my job has helping people to be as independent as they can be, it can be difficult but it is so rewarding"*. Mae'r gwasanaeth yn gweithio'n effeithiol i gefnogi pobl sy'n wynebu heriau wrth gyfathrebu ac yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'r gweithwyr cymorth yn annog y bobl i gyfrannu at eu cymunedau drwy fanteisio i'r eithaf ar gyfleusterau lleol. Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i wybod pa gyfleoedd sydd ar gael iddynt am fod cynlluniau yn canolbwyntio ar weithgareddau hen a newydd. Dywedwyd wrthym am yr effaith gadarnhaol y mae agor gwahanol glybiau wedi ei chael ar lesiant y bobl.

Drwy brosesau recriwtio a hyfforddiant, gwneir yn siŵr bod y bobl yn cael y gofal a'r cymorth iawn gan weithwyr medrus a gwybodus. Mae'r staff yn amddiffyn y bobl rhag camdriniaeth ac esgeulustod ac maent yn deall eu cyfrifoldebau o ran codi pryderon yn llawn. Caiff y bobl eu cefnogi i wneud awgrymiadau neu i gwyno os bydd angen.

Mae gan y bobl lais a gallant gyfrannu at y ffordd y caiff y gwasanaeth ei redeg gan fod yr Unigolyn Cyfrifol yn eu cynnwys nhw a'u gweithwyr cymorth mewn ymweliadau Rheoliad 73. Mae prosesau llywodraethu yn canolbwyntio ar ddatblygu'r gwasanaeth drwy ddefnyddio gwybodaeth o archwiliadau ansawdd a gwiriadau mewnol. Mae'r Adolygiad o Ansawdd y Gofal yn nodi meysydd i'w gwella ar ôl ymgynghori â'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac yn gweithio yn y gwasanaeth.

Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn fodlon iawn ar y cymorth a gânt. Mae'r rhyngweithio yn gynnes ac yn gyfeillgar, ac mae gan y bobl gydbertnasau hirsefydlog â'u gweithwyr cymorth, sy'n eu hannog i fod mor annibynnol â phosibl. Dywedodd gweithiwr cymorth wrthym *"the guys have more choice and less restrictions, we really try to promote people's independence"*. Mae'r bobl yn cael eu cynnwys yn llawn wrth lunio eu cynlluniau. Mae'r staff yn cael adborth rheolaidd gan yr unigolion er mwyn sicrhau eu bod yn parhau ar y trywydd cywir o ran cyflawni eu nodau ac er mwyn helpu i'w cymell yn barhaus. Mae'r cofnodion dyddiol manwl yn gywir ac yn dangos tystiolaeth glir o gyflawniadau'r unigolion ac adborth o safbwynt yr unigolyn hwnnw.

Mae'r rheolwr yn ystyried amrywiaeth o wybodaeth a geir gan yr unigolyn, ei gynrychiolwyr, y gweithwyr cymorth a gweithwyr proffesiynol allanol. Mae'r asesiadau risg yn galluogi'r bobl i gymryd risgiau, gan helpu i'w cadw'n ddiogel a hyrwyddo eu hannibyniaeth ar yr un pryd. Mae'r gweithwyr allweddol yn adolygu'r cynlluniau yn rheolaidd gyda'r bobl, er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol a'u bod yn canolbwyntio ar yr hyn y maent am ei gyflawni. Cofnodir penderfyniadau budd pennaf yn glir mewn cynlluniau. Gwelsom dystiolaeth fod

gweithwyr iechyd proffesiynol fel eiriolwyr a nyrsys arbenigol yn cael eu cynnwys a bod eu harweiniad yn cael ei adlewyrchu mewn cynlluniau. Mae'r gweithwyr cymorth yn glir ynglŷn â'u rôl ac yn grymuso'r bobl i fod mor annibynnol â phosibl.

Mae'r bobl yn ail-greu eu cysylltiadau cymdeithasol a gollwyd yn ystod y pandemig. Maent yn cynllunio gweithgareddau newydd fel mynd ar wyliau, cofrestru mewn coleg a swyddi gwirfoddoli. Mae'r rheolwr yn sicrhau bod y staff yn gweithio mewn ffordd hyblyg ac yn penodi gweithwyr cymorth ar yr adegau pan gaiff y gweithgareddau hyn eu cynnal. Mae'r darparwr yn cynnig y cyfle i'r bobl gymryd rhan yn y broses o sicrhau ansawdd eu gwasanaethau nhw a gwasanaethau eraill. Mae'r bobl yn cynnig cymorth cymheiriaid i eraill er mwyn cael gwybod mwy am brofiadau unigolion, eu barn ar y gwasanaeth ac er mwyn awgrymu unrhyw welliannau.

Mae gan y darparwr bolisiau a gweithdrefnau ar gyfer rheoli'r risg o heintiau. Mae arferion hylendid da ar waith yn unol â chanllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan y darparwr drefniadau da ar waith ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth. Mae'r darparwr wrthi'n cofrestru Unigolyn Cyfrifol newydd. Wrth drafod yr Unigolyn Cyfrifol blaenorol a'r Unigolyn Cyfrifol newydd, dywedodd gweithiwr cymorth wrthym *"[both RIs] are accessible and always at the end of the phone if needed"* ac *"I saw [new RI] last week and she always asks how we are and is always available. It's the same with the [previous RI], we can just pick up the phone"*. Caiff ymweliadau chwarterol statudol yr Unigolyn Cyfrifol eu cwblhau yn dilyn trafodaethau â'r staff a'r bobl. Mae'r Adolygiad o Ansawdd y Gofal a gynhelir bob chwe mis yn fanwl ac yn nodi canlyniadau cadarnhaol yn ogystal â'r meysydd y mae'r gwasanaeth yn bwriadu eu gwella.

Ceir diwylliant agored, llawn anogaeth yn y gwasanaeth. Mae'r rheolwyr llinell yn adnabod y bobl yn dda ac mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda iawn. Mae pob gweithiwr yn gadarnhaol am y ffordd y caiff y gwasanaeth ei arwain ac yn disgrifio'r rheolwr fel unigolyn trefnus, hygyrch a chefnogol. Dywedwyd wrthym *"[Manager] is a great support and the best manager I've had"*. Mae cyfarfodydd tîm rheolaidd yn rhoi cyfle i weithwyr cymorth drafod yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn y mae angen ei wella. Nododd pob gweithiwr cymorth ei fod yn cael cyfarfodydd goruchwyllo un i un ac arfarniadau rheolaidd. Roedd y cofnodion yn cadarnhau hyn. Dywedodd gweithiwr cymorth *"supervision and appraisals are open and very constructive"*. Mae gan bob un o'r gweithwyr ddealltwriaeth dda o drefniadau diogelu a'u dyletswydd i roi gwybod am bryderon. Mae bolisiau a gweithdrefnau ar waith i gefnogi arferion da, ac mae gan y staff ddealltwriaeth ddigonol ohonynt.

Cynhelir gwiriadau cyn cyflogaeth cyn i gyflogeion newydd ddechrau gweithio. Mae'r rhain yn cynnwys gwirio geirdaon a'r hawl i weithio a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Caiff y rhain eu storio'n electronig ynghyd â'r holl wybodaeth bersonél arall. Caiff y gweithwyr cymorth hyfforddiant gorfodol, hyfforddiant sy'n benodol i unigolion a hyfforddiant datblygiadol er mwyn diwallu anghenion y bobl. Mae'r broses sefydlu yn fanwl ac yn gynhwysfawr ac yn benodol i'r gwasanaeth. Mae hyfforddiant a datblygiad parhaus ar gael i bob gweithiwr, a cheir cyfleoedd iddynt gamu ymlaen yn eu gyfa. Dywedodd gweithiwr cymorth wrthym *"the training is really good and very helpful"*.

Mae niferoedd digonol o staff ar gael i ddiwallu anghenion y bobl a bodloni eu dewisiadau, er enghraifft, mae'r staff yn gweithio'n hwyrach ar nosweithiau pan fydd y bobl yn mynd i glybiau cymdeithasol. Mae'r bobl wedi meithrin cydberthnasau hirsefydlog ag aelodau ymroddedig o staff ac yn cael y parhad sydd ei angen arnynt. Mae'r gweithwyr cymorth yn hyrwyddo ac yn annog annibyniaeth. Wrth drafod person a oedd yn newydd i'r gwasanaeth, dywedwyd wrthym *"It feels like we are supporting them to start living his own life"*.

Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio	
Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
Heb Gyflawni	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Dyddiad Cyhoeddi 07/02/2023

Adroddiad terfynol heb ei
gyhoeddi